# Canllawiau ariannol ac adnodd archwilio ar gyfer darparwyr Gofal Plant newydd ym Mhen-y-bont ar Ogwr

Canllawiau cynhwysfawr ac adnodd archwilio ar gyfer darparwyr gofal plant newydd, gan gynnwys Gwarchodwyr Plant, Meithrinfeydd Dydd, Cylchoedd Chwarae, Clybiau ar ôl Ysgol a Chlybiau Gwyliau

Ysgrifennwyd gan: Y Tîm Gofal Plant, Y Ganolfan Blant Integredig, Greenfield Terrace, Gogledd Corneli      CF33 4LW

Rhif ffôn: (01656) 642649

**Dechrau eich Darpariaeth Gofal Plant eich hun**

Mae dechrau darpariaeth gofal plant o ansawdd uchel yn waith hynod foddhaol ond gall fod yn waith caled dros ben. Gall lleoliad gofal plant ddarparu gwasanaethau mawr eu hangen ar y gymuned leol, swyddi ac yn bwysicaf oll, gallant wneud gwahaniaeth enfawr i les plant. Mae Tîm Gofal Plant Pen-y-bont ar Ogwr wedi llunio'r ffeithlen gydlynol hon sy'n amlinellu pob maes a fydd yn cefnogi a gwella eich busnes.

**Ymchwil**

Mae'n hollbwysig eich bod yn ymchwilio i'r angen am ddarpariaeth gofal plant yn yr ardal yr ydych chi'n bwriadu lleoli eich hun. Mae'n rhaid asesu'r galw am ofal plant, y ddarpariaeth bresennol, yr economi a'r gymuned leol. Gellir defnyddio'r canlynol i bennu'r angen am ddarpariaeth newydd;

- Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant (CSA) – Bydd yr Awdurdod Lleol yn cynnal y CSA i nodi ardaloedd o fewn Pen-y-bont ar Ogwr lle mae bylchau mewn darpariaeth gofal plant. Cynhelir yr Asesiad yn flynyddol ac mae ar gael ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (www.Bridgend.gov.uk).

- Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd (FIS) / Dewis Cymru - Gwasanaethau gwybodaeth am ddim yw FIS sy'n cael eu darparu gan bob awdurdod lleol yng Nghymru sy'n cynnig y cyfle i rieni a gofalwyr gael mynediad at amrywiaeth eang o wasanaethau, gan gynnwys clybiau a darpariaeth gofal plant. Mae FIS yn defnyddio'r wefan genedlaethol Dewis Cymru i hyrwyddo a hysbysebu darpariaeth gofal plant yn y fwrdeistref. Nid yn unig ei bod yn ffordd ragorol am ddim o hyrwyddo'ch busnes, ond gellir ei defnyddio hefyd fel adnodd i chwilio am ofal plant presennol yn yr ardal rydych chi'n ystyried lleoli'ch hun, darpariaeth yn ystod y tymor a'r gwyliau, darpariaeth casglu a gollwng yn yr ysgol, a chostau. ( www.dewis.com a Bridgend.gov.uk)

- Ewch i grwpiau mam a'i phlentyn lleol, ysgolion a chysylltwch â grwpiau rhieni, gwasanaethau ymwelwyr iechyd a bydwragedd i ymchwilio i'r angen am y ddarpariaeth gofal plant rydych chi'n ei ystyried. Meddyliwch am y math o ddarpariaeth rydych chi am ei hagor - y lleoliad, ystod oedran, y math o ddarpariaeth, a fyddwch chi'n agor yn ystod y tymor ac yn ystod y gwyliau, a fyddwch yn casglu a gollwng plant yn yr ysgol? Fyddwch chi'n ystyried agor clwb brecwast a chlwb ar ôl ysgol a faint fydd eich ffioedd?

- Cysylltwch â'r Tîm Gofal Plant ym Mhen-y-bont ar Ogwr i drafod eich cynlluniau. Bydd Tîm Gofal Plant Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn gallu'ch cefnogi a'ch cynghori ym mhob agwedd ar sefydlu a chynnal darpariaeth gofal plant o ansawdd. Gallant ddarparu cymorth busnes a marchnata, eich helpu i gofrestru gydag AGC, ysgrifennu polisïau, rhoi cymorth cyflogwyr a gweithwyr i chi, hyfforddiant a chymorth gyda grantiau. Mae'r manylion cyswllt ar ddiwedd y ffeithlen hon.

**Strwythur Cyfreithiol**

Eich statws cyfreithiol yw'r ffordd y diffinnir eich busnes yn ôl y gyfraith ac mae'n dynodi'r 'unigolyn' yn ôl y gyfraith sy'n gyfrifol am drafodion cyfreithiol, gan gynnwys benthyciadau busnes, cyflogi staff a chofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru.

**Unig Fasnachwr** - Mae unig fasnachwr yn unigolyn sydd wedi'i gofrestru yn hunangyflogedig gyda CThEM ac sy'n rhedeg ei fusnes ei hun. Fel unig fasnachwyr, bydd ganddo gyfrifoldeb cyffredinol am redeg ei fusnes. Bydd unrhyw elw y bydd yn ei wneud yn

dod iddo'n uniongyrchol ac yn sgil hynny, bydd unrhyw ddyledion neu rwymedigaethau yn gyfrifoldeb personol iddo. Cyfeirir ar warchodwyr plant fel arfer fel unig fasnachwyr.

**Partneriaeth** - Partneriaeth yw lle mae dau unigolyn neu fwy yn rhannu'r cyfrifoldeb am reolaeth ac elw eu busnes. Mae pob partner yn atebol am unrhyw ddyledion a ddaw i'r busnes a bydd angen i bob partner gofrestru gyda CThEM ar gyfer hunanasesu.

**Partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig (LLP)** – Mae Partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig (LLP) yn debyg i bartneriaeth ond heb yr atebolrwydd personol cyfyngedig. Mae'r LLP yn ysgwyddo unrhyw gyfrifoldeb am ddyledion a ddaw i'r busnes ac mae angen cofrestru gyda Thŷ'r Cwmnïau. Gall fod yn ddrutach sefydlu LLP na phartneriaethau cyffredin.

**Cwmni Cyfyngedig** - Mae cwmni cyfyngedig yn gorff cyfreithiol ac ar wahân i'r bwrdd cyfarwyddwyr sy'n ei redeg a'i reoli sy'n golygu bod atebolrwydd y cyfarwyddwr a risg ariannol personol yn gyfyngedig. Mewn gwirionedd, mae'r dyledion a'r rhwymedigaethau yn cael eu hysgwyddo gan y cwmni yn hytrach na'r unigolion. Mae angen i Gwmnïau Cyfyngedig gofrestru Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu gyda Thŷ'r Cwmnïau ac mae'n rhaid i gyfarwyddwyr gydymffurfio â'r Ddeddf Cwmnïau sy'n rhoi dyletswyddau cyfreithiol arnynt, fel ffeilio cyfrifon ac ati. Fel arfer, mae'r elw yn mynd i gyfarwyddwyr a rhanddeiliaid ac fel LLP, gall fod y ddrutach i'w sefydlu a'i gynnal.

**Cwmni Buddiannau Cymunedol, (CIC)** - Mae CIC yn gwmni cyfyngedig sy'n gweithredu i ddarparu buddiannau i'r cwmni. Nid ydynt yn gwmnïau 'nid-er-elw' gan eu bod yn gallu sicrhau enillion i fuddsoddwyr, ond y prif ddiben yw budd cymunedol, nid elw.

**Sefydliad Corfforedig Elusennol, (CIO)** - Sefydliad sy'n cael ei sefydlu'n arbennig at ddibenion elusennol, nid er elw proffesiynol yw elusen. Mae elusennau yn cael eu rhedeg gan bwyllgor o wirfoddolwyr. Mae'n rhaid i elusennau gydymffurfio â rheoliadau'r Ddeddf Elusennau sy'n gofyn am sawl dyletswydd gyfreithiol megis paratoi cyfrifon. Mae gan CIO ei hunaniaeth gyfreithiol ei hun a gall wynebu rhwymedigaethau uniongyrchol. Mae'n rhaid iddo fabwysiadu cyfansoddiad a darparu cofnodion cynnar o berfformiad ariannol. Gall elusennau gael mynediad at fwy o grantiau a chyllid i gefnogi eu hincwm na mathau eraill o fusnesau. O fewn Pen-y-bont ar Ogwr, mae BAVO yn sefydliad sydd wedi'i sefydlu i ddarparu cymorth, arweiniad a chymorth ymarferol i grwpiau gwirfoddol ac elusennol lleol. Maent yn cynnig cyngor ar ddechrau elusennau, cyfansoddiadau, cyllid, hyfforddiant, cynllunio prosiect a chadw llyfrau.

## Safleoedd

Gall gwarchodwyr plant ddarparu gofal yn eu lleoliadau cartref, tra gall cylchoedd chwarae, meithrinfeydd dydd ac ati ddefnyddio safleoedd annomestig fel adeilad cymunedol neu ysgol. Pan fyddwch chi'n dewis safle, dylech ystyried a yw'r adeilad mewn cyflwr da, a fydd wedi'i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru, a oes unrhyw barcio a darpariaeth tu allan ac a yw'n hygyrch i deuluoedd. Dylai busnesau hefyd ystyried rhent, contractau, a ddefnyddir yr adeilad gan unrhyw wasanaethau eraill a phrydles/ tenantiaeth yr adeilad.

Meddyliwch a all y lleoliad fod yn gwbl gynhwysol i blant ag anableddau.

Os ydych chi'n dod o hyd i safle busnes ac am bennu pa mor addas ydyw, cysylltwch â'r Tîm Gofal Plant a fyddai yn hapus i'ch cynghori ar ymweliad safle.

## Cyfarpar

Cyn agor eich darpariaeth, bydd angen i chi sicrhau bod gennych chi gyfarpar digonol ar gyfer plant a staff. Dylech ystyried eich amgylchedd fel adnodd ar gyfer cefnogi datblygiad y

plant yn eich gofal. Meddyliwch am y gweithgareddau y byddwch yn eu cynnig a'r gofod sydd gennych chi dan do ac yn yr awyr agored.

Dylai'r holl gyfarpar fod mewn cyflwr da a dangos y marc barcut a marc Ystad y Goron sy'n nodi eu bod yn cydymffurfio â Safonau Diogelwch Prydeinig ac Ewropeaidd. Meddyliwch am ystod oedran y plant y byddwch chi'n gofalu amdanynt ac a fydd y cyfarpar yn bodloni cyfnodau datblygu amrywiol.

Meddyliwch am y cyfarpar y byddwch ei angen ar gyfer pryderon iechyd a diogelwch fel gatiau diogelwch, cloeau, seddi ceir, bygis, awyru ac ati.

Bydd angen i feithrinfeydd dydd ystyried y cyfarpar sydd ei angen ar gyfer egwyliau staff fel byrddau a chadeiriau a dylai pob lleoliad ystyried pa gyfarpar busnes fydd ei angen arnynt. Bydd angen ystyried ffonau, cyfrifiaduron ac argraffyddion fel arfer.

**Iechyd a Diogelwch**

Mae iechyd a diogelwch y plant, teuluoedd a staff yn eich lleoliad yn hollbwysig. Cyn i chi gofrestru, bydd angen i chi ddarparu tystysgrifau nwy a thrydan cyfoes i Arolygiaeth Gofal Cymru. Os ydych chi'n defnyddio cerbyd i gludo plant a staff, dylech sicrhau bod gennych chi yswiriant busnes a bod eich car yn cael ei gynnal a'i gadw i safon uchel.

Mae'n rhaid ystyried diogelwch tân ac mae angen i sefydliadau gynnal archwiliad tân cyn agor.

Mae'n bwysig eich bod yn ysgrifennu Polisi Iechyd a Diogelwch sy'n adlewyrchu'ch nod ar gyfer cynnal amgylchedd diogel a dylai gynnwys gweithdrefnau ar gyfer rhoi gwybod am ddamweiniau, asesiadau risg a pheryglon.

Os byddwch chi'n gweini unrhyw fwyd neu ddiod ar wahân i ddŵr, bydd angen i'r lleoliad gofrestru gydag Iechyd yr Amgylchedd.

https://www.srs.wales/cy/Environmental-Health/Hylendid-a-Safonau-Bwyd/Register-a-Food-Business.aspx

**Yswiriant**

Bydd angen i chi gael yswiriant yn ei le cyn i chi allu cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru. Mae gwahanol fathau a lefelau o yswiriant;

***Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwyr** (isafswm gofynnol o £5,000,0000) – mae'n eich diogelu yn erbyn cost hawliadau iawndal a salwch neu anafiadau gweithwyr a achosir yn sgil eu gwaith i chi. Mae hwn yn ofyniad cyfreithiol os yw'ch busnes yn cyflogi mwy nag un person.

***Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus** (isafswm gofynnol o £5,000,0000) – mae'n cynnwys cost camau cyfreithiol a hawliadau iawndal a wneir yn erbyn eich busnes os yw trydydd parti yn cael ei anafu neu os yw ei eiddo yn cael ei ddifrodi ar safle eich busnes neu pan fyddwch chi'n gweithio yn eu cartref, swyddfa neu safle busnes.

***Yswiriant Indemniad Proffesiynol** - cyfeirir at yr yswiriant hwn yn aml fel yswiriant atebolrwydd proffesiynol ac mae'n cwmpasu costau cyfreithiol a chostau a ddaw wrth eich amddiffyn, yn ogystal ag unrhyw ddifrod neu gostau y gellid eu dyfarnu.

**Ardrethi Busnes**

Ardrethi busnes yw'r term a ddefnyddir yn gyffredin ar gyfer ardrethi annomestig sy'n cael eu codi ar y rhan fwyaf o safleoedd annomestig. Os ydych chi'n sefydliad 'nid-er-elw' efallai y byddwch chi'n gallu gwneud cais am ryddhad ardrethi. Bydd meithrinfeydd dydd plant yng Nghymru yn cael eu hesemptio rhag talu ardrethi annomestig o fis Ebrill 2019.

Mae elusennau yn gallu hawlio rhyddhad o 80% ar eu bil ardrethi.

https://www.bridgend.gov.uk/cy/busnes/ardrethi-busnes/

**Isafswm Cyflog Cenedlaethol**

Yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol yw'r isafswm cyflog yr awr y mae gan y rhan fwyaf o weithwyr yr hawl iddo yn ôl y gyfraith. Bydd y gyfradd yn dibynnu ar oedran y gweithiwr ac a yw'n brentis.

Os ydych chi'n cyflogi mwy nag un person, meddyliwch am wahaniaethau mewn cyfraddau cyflog ar sail cyfrifoldeb.

https://www.gov.uk/guidance/rates-and-thresholds-for-employers-2019-to-2020#national-minimum-wage

**Pensiynau**

O fis Hydref 2018, bydd yn rhaid i'r holl gyflogwyr yn y DU roi aelodau staff penodol ar bensiwn gweithle a chyfrannu tuag ato. Ni fydd pob aelod o staff yn gymwys ac fel cyflogwr, nid oes yn rhaid i chi gyfrannu'r un faint â'r gweithiwr cyflogedig; ar hyn o bryd y cyfraniad gofynnol yw 2% o enillion cymwys, ac mae'n rhaid i'r cyflogwr dalu o leiaf 1% o hwn.

Ar adeg ysgrifennu'r ffeithlen hon, mae'n rhaid i chi sefydlu pensiwn ar gyfer eich staff os ydynt:

- Rhwng 22 oed a'r Oedran Pensiwn Gwladol
- Yn ennill dros y trothwy enillion; sef £10,000 y flwyddyn ar hyn o bryd
- Yn gweithio yn y DU a bod ganddynt gontract cyflogaeth neu gontract i ddarparu gwaith a/neu wasanaethau yn bersonol.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r Gwasanaeth Cynghori ar Bensiynau, https://www.pensionsadvisoryservice.org.uk/ Ffôn: 08000113797 neu'r Rheoleiddiwr Pensiynau https://www.thepensionsregulator.gov.uk/

**Cyflogaeth Staff**

Mae Busnes Cymru yn cynnig gweithdai a gyllidir yn llawn ar brosesau Adnoddau Dynol ac mae Gofal Cymdeithasol Cymru hefyd yn cynnig cyhoeddiadau ar recriwtio staff, arfarniadau a goruchwyliaeth. Bydd angen i'r holl staff gyflawni asesiad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, (meddyliwch pwy fydd yn talu am hyn), byddant angen geirda a bydd angen hyfforddiant mewn Diogelu a Chymorth Cyntaf arnynt, (eto, meddyliwch am gost hyn).

Fe'ch cynghorir i hysbysebu am staff o ansawdd drwy gwmnïau fel Twf Swyddi Cymru ac Indeed.co.uk a chanolfannau cyflogaeth lleol eraill.

**Cyflogau Staff**

Meddyliwch sut byddwch yn talu cyflogau eich staff? A fyddwch chi'n talu staff mewn arian parod neu sieciau gyda'u slipiau cyflog yn dangos manylion eu trethi, yswiriant gwladol ac

unrhyw ddidyniadau eraill, neu a fyddwch chi'n defnyddio System Glirio Awtomataidd y Banciau (BACs)? Bydd angen penderfynu a ydych chi'n talu'ch staff bob wythnos neu bob mis. Os ydych chi am gyflogi nifer o staff, pwy fydd yn gyfrifol am dalu'r staff - chi neu aelod o'r pwyllgor rheoli neu'r bwrdd? Mae llawer o gwmnïau bellach yn defnyddio gwasanaeth cyflogres a all fod yn fwy diogel ar gyfer cyfrifo trethi a chyfraniadau yswiriant gwladol ac ati. Mae'n rhaid i gyflogwyr gofrestru o dan y cynllun Talu wrth Ennill (PAYE) gyda Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi i weithredu cyflogres staff. Ar ôl i chi gofrestru gyda CThEM, byddwch yn derbyn pecyn busnes i chi gael cychwyn arni.

## Hyfywedd Ariannol

Mae rheolaeth ariannol dda yn hollbwysig wrth redeg unrhyw fusnes yn effeithiol. Mae'n rhaid i'r holl ddarparwyr gofal plant cofrestredig gynnal cyfrifon cywir ac mae'n rhaid i chi fod yn hyderus y bydd eich incwm o ffioedd a grantiau yn ddigon i dalu'ch treuliau. Mae'r Tîm Gofal Plant yn awgrymu ei bod yn arfer da cael o leiaf 3 mis o gostau cynnal ar gael a chael cynllun busnes dwy flynedd o leiaf ar waith. Byddem yn awgrymu eich bod yn ystyried y canlynol:

- Pa mor gynaliadwy ydych chi – oes gennych chi gronfeydd wrth gefn?
- Ydych chi'n gallu talu eich cyflog chi/ eich staff, hyd yn oed os yw'ch incwm yn gostwng?
- Ydych chi wedi ystyried eich ymrwymiadau gwariant misol yn ogystal ag ymrwymiadau blynyddol mwy fel biliau blynyddol, gwaith atgyweirio adeiladau, cynnydd yn yr isafswm cyflog cenedlaethol?
- Meddyliwch am y tâl salwch statudol a'r tâl mamolaeth y gallech chi fod eu hangen ar gyfer eich staff.

## Grantiau

Efallai y bydd llawer o grantiau/ benthyciadau busnes ar gael i chi drwy Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Busnes mewn Ffocws a Busnes Cymru.

***Grant Kick Start Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr** - gall meicro fusnesau wneud cais am hwn o fewn tair blynedd gyntaf y masnachu. Nid yw'n berthnasol i sefydliadau gwirfoddol ac mae'n grant dewisol a all ddarparu hyd at 50% o gostau prosiect cymwys. Isafswm y grant yw £250 a'r uchafswm grant sydd ar gael yw £4000. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â tracy.mortimer@bridgend.gov.uk <mailto:tracy.mortimer@bridgend.gov.uk>

***Grant Dechrau Gofal Plant Busnes Cymru** – mae hyd at £500 ar gael i warchodwyr plant newydd. https://businesswales.gov.wales/childcare-grant

* **Grant Gweithwyr Newydd Busnes Cymru** - grant nad oes angen ei ad-dalu sydd â'r nod o annog creu swyddi newydd ledled y sector gofal plant. Mae'r grant am hyd at £2,000 y gweithiwr, hyd at £10,000.

***Tîm Gofal Plant Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr** – Mae grantiau ar gael i fusnesau newydd, cynaliadwyedd a datblygiad a'r Cynnig Gofal Plant.

## Lleoedd a gyllidir

O fewn Pen-y-bont ar Ogwr, mae nifer o ffrydiau cyllid y gallech chi eu defnyddio i gynorthwyo'ch teuluoedd gyda chostau gofal plant;

- Cynnig Gofal Plant Cymru - Mae plant yn gallu cael mynediad at hyd at 30 awr o addysg a gofal plant wedi'i gyllido o'r tymor ar ôl eu pen-blwydd yn dair oed. Mae'r Cynnig Goal Plant ar gyfer amser y tymor a darpariaeth gwyliau hyd at 48 wythnos y flwyddyn. Mae angen cofrestru lleoliadau i ddarparu'r Cynnig Gofal Plant ac am ragor o wybodaeth, cysylltwch â: childcareoffer@bridgend.gov.uk

- Oriau addysg a gyllidir - o fewn Pen-y-bont ar Ogwr, mae gan bob plentyn hawl i 10 awr o addysg a gyllidir o'r tymor ar ôl eu pen-blwydd yn 3 oed. Mae'r 10 awr yn rhan o'r oriau Cynnig Gofal Plant a gellir manteisio arno drwy leoliad ysgol neu leoliad gofal plant sydd wedi cofrestru gydag Estyn.

**Cynhwysiant a Chydraddoldeb**

Er budd eich holl staff a theuluoedd, mae'n rhaid ymwreiddio cydraddoldeb a chynhwysiant drwy'ch darpariaeth. Mae angen i chi ystyried sut gallwch chi greu amgylchedd lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cynnwys yn gyfartal.

Mae angen i ddarparwyr ystyried Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Ddeddf Tribiwnlys Addysg (2018) sy'n disodli Cod Ymddygiad AAA ac a fydd yn cael ei gyflwyno'n raddol ledled Cymru o fis Medi 2021.

https://llyw.cymru/rhaglen-trawsnewid-anghenion-dysgu-ychwanegol
https://www.complantcymru.org.uk/

**Y Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu – ACAS**

Mae ACAS yn darparu gwybodaeth a chyngor amhleidiol am ddim i gyflogwyr a gweithwyr ar bob agwedd ar gysylltiadau'r gweithle a chyfraith cyflogaeth. Gall ACAS, sy'n cael ei lywodraethu gan gyngor annibynnol, ddarparu hyfforddiant i gyflogwyr. Mae ACAS hefyd yn ceisio datrys anghydfodau yn y gweithle cyn gynted â phosibl er mwyn osgoi gwrthdaro yn y dyfodol. www.acas.org.uk

**Cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

Mae angen i ddarparwyr gofal plant sy'n gofalu am blant dan 12 oed am fwy nag 1 awr 59 munud gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru. Mae AGC yn cofrestru, yn arolygu ac yn cymryd camau i wella ansawdd lleoliadau sydd wedi'u cofrestru i ddarparu gofal i blant. Wrth wneud eich cais i AGC, mae'n rhaid i chi roi manylion eich 'person cofrestredig' a fydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol ar gyfer eich busnes. Mae'r person cofrestredig yn ymwneud â strwythur cyfreithiol eich darpariaeth a bydd llawer o wiriadau yn cael eu cynnal ar addasrwydd y person hwnnw, fel gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, gwiriadau iechyd a chyfweliad ag AGC.

Mae Arolygiaeth Gofal Cymru yn gweithio gyda'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol sy'n gymwys i ddarparwyr gofal plant cofrestredig ac maent yn berthnasol i'r gwaith. Defnyddir y rheoliadau hyn i bennu a yw gwarchodwyr plant a lleoliadau gofal plant yn darparu gofal digonol i blant dan 12 oed. Mae'r Safonau yn ofynnol ar gyfer cofrestru er mwyn darparu gofal plant o ansawdd, ond disgwylir i ddarparwyr ragori ar y disgwyliadau hyn.

https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/safonau-gofynnol-cenedlaethol-ar-gyfer-gofal-plant-wedi-i-reoleiddio.pdf

Fel rhan o'ch cais i AGC, bydd angen i chi ysgrifennu llawer o bolisïau a gweithdrefnau a fydd yn ymwneud â rhedeg eich busnes. Gellir darparu templedi o'r polisïau hyn gan rai

sefydliadau ymbarél fel NDNA, Pacey, Clybiau Plant Cymru, er y bydd angen i chi ddod yn aelod i gael mynediad at yr adnoddau hyn. Bydd y Tîm Gofal Plant yn gallu cynnig cyngor ar y mathau o bolisïau sydd eu hangen arnoch ar gyfer eich cais a thempledi ar gyfer y cynnig.

Cewch yn gallu agor eich darpariaeth heb gofrestru gydag AGC os ydych chi ond ar agor am hyd at 1 awr 59 munud. Wrth aros i gofrestru byddem yn argymell bod lleoliadau yn defnyddio'r amser hwn a hefyd manteisio ar y cyfle i gynnal sesiynau aros a chwarae i rieni.

**Sefydliadau Ymbarél**

Byddem yn cynghori pob busnes gofal plant i ddod yn aelodau o sefydliad ymbarél, gan eu bod yn darparu cyngor arbenigol, cymorth, hyfforddiant a thempledi polisi.

- Y Gymdeithas Meithrinfeydd Dydd Cenedlaethol (NDNA) – www.ndna.org.uk
- Blynyddoedd Cynnar Cymru https://www.earlyyears.wales/cy
- Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a Blynyddoedd Cynnar (PACEY) - www.pacey.org.uk
- Mudiad Meithrin – Sefydliad sy'n cefnogi lleoliadau Cymraeg ei hiaith – www.meithrin.cymru
- Clybiau Plant Cymru - Sefydliad sy'n cefnogi Clybiau Allan o'r Ysgol - www.clybiauplantcymru.org

**Cymwysterau**

Mae'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn nodi bod yn rhaid i'r person wrth y llyw feddu ar o leiaf gymhwyster gofal plant lefel 3 a gydnabyddir ar restr bresennol Gofal Cymdeithasol Cymru o Gymwysterau a Dderbynnir ar gyfer y Gweithlu Cynnar a Gofal Plant yng Nghymru neu waith Fframwaith Chwarae Cymhwyster Integredig Skills Active.

https://gofalcymdeithasol.cymru/fframwaith-cymwysterau
https://www.skillsactive.com/country/wales/list-of-required-qualifications-for-wales-playwork

**Hyfforddiant**

Bydd angen cadw i fyny â hyfforddiant gorfodol fel Diogelu Plant a Chymorth Cyntaf i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Dylid hefyd ystyried datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer staff gyda hyfforddiant drwy gwmnïau fel TSW ac Educ8.

Mae uwchsgilio staff yn hanfodol i gynnal ansawdd eich busnes a'r plant yn eich gofal. Gellir derbyn hyfforddiant gan:

*__Y Tîm Gofal Plant__ – cynnig hyfforddiant gorfodol a datblygiad proffesiynol parhaus.

*__Busnes Cymru__ – Cynnig gweithdai a chymorth unigol ar brosesau cyflogaeth, cynllunio busnes, marchnata digidol, grantiau a chyfweliadau. Cyllidir yr holl gymorth yn llawn. https://businesswales.gov.wales/cy

*__TSW__ – https://www.tsw.co.uk/contact-us/

*__Educ8__ - https://www.educ8training.co.uk/home/

*__Coleg Penybont__ - https://www1.bridgend.ac.uk/

*__Progress for Success__ - hyfforddiant wedi'i gyllido i helpu lleoliadau blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae i fod yn fwy llwyddiannus.

**Estyn**

Mae'n rhaid i unrhyw leoliad cofrestredig sydd am ddarparu'r Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant 3 oed, fod wedi'u cofrestru gydag ESTYN. Mae angen ystyried sawl ffactor fel yr angen am ddarpariaeth o'r fath ac ansawdd y lleoliad.

Os yw hyn yn rhywbeth o ddiddordeb i chi, cysylltwch â:

Sarah Ghahremani sarah.ghahremani@bridgend.gov.uk neu
Julie Morris julie.morris@bridgend.gov.uk

Am ragor o wybodaeth am Estyn a'r Cyfnod Sylfaen, ewch i:
https://www.estyn.llyw.cymru/

**Y Gymraeg**

Rydym yn annog lleoliadau Cymraeg o fewn Pen-y-bont ar Ogwr yn frwd wrth i ni gamu ymlaen tuag at Cymraeg 2050 (miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050). Mae'r Tîm Gofal Plant yn falch o gyfathrebu gyda chi yn ddwyieithog a byddem yn hapus i'ch cynghori ar fylchau mewn darpariaeth ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Am ragor o gymorth gyda'r Gymraeg, gallai fod yn werth cysylltu â'r sefydliadau canlynol:

*Siop yr Hen Bont - https://www.facebook.com/siopyrhenbont
*Mabon a Mabli - www.mabonamabli.co.uk
*Coleg Penybont - https://www1.bridgend.ac.uk
*Menter Bro Ogwr - www.menterbroogwr.org
*Twf - www.twfcymru.com

**Cymorth Ychwanegol gan y Tîm Gofal Plant**

Mae'r Tîm Gofal Plant yn cynnig cymorth a chyngor ar nifer o gynlluniau y gallwch chi gymryd rhan ynddynt ar ôl cofrestru.

- Gwobr Byrbryd Iach Safon Aur
- Iechyd Cyn Ysgol
- Cynllun Gwên
- Cyllid
- Grantiau Cyfalaf ar gyfer y Cynnig Gofal Plant
- Sicrwydd Ansawdd fel ITERS
- WellComm (Ymyrraeth Lleferydd ac Iaith)
- Cynllun Gofal Plant Di-dreth

Gellir cysylltu â'r Tîm Gofal Plant ar 01656 642649 neu e-bost:
childcareteam@bridgend.gov.uk

**Cysylltiadau e-bost defnyddiol eraill**

ACAS - https://www.acas.org.uk/index.aspx?articleid=1461

BAVO - https://www.bavo.org.uk/

Cyngor Bwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr - https://www.bridgend.gov.uk

Coleg Penybont - https://www1.bridgend.ac.uk/

Busnes mwn Ffocws – https://www.businessinfocus.co.uk/

Busnes Cymru - https://businesswales.gov.wales/cy

Arolygiaeth Gofal Cymru - https://arolygiaethgofal.cymru/

Comisiynydd Plant Cymru - https://www.complantcymru.org.uk/

Clybiau Plant Cymru – www.clybiauplantcymru.org

Estyn - https://www.estyn.llyw.cymru/

Cyllid a Thollau EM - https://www.gov.uk/government/organisations/hm-revenue-customs

Twf Swyddi Cymru – https://gyrfacymru.llyw.cymru/cael-swydd

Mudiad Meithrin – www.meithrin.cymru

Cymdeithas Meithrinfeydd Dydd Cenedlaethol (NDNA) – www.ndna.org.uk

Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a Blynyddoedd Cynnar (PACEY) – www.pacey.org.uk

Y Gwasanaeth Cynghori Pensiynau - https://www.pensionsadvisoryservice.org.uk

Y Rheoleiddiwr Pensiynau - https://www.thepensionsregulator.gov.uk/

Gofal Cymdeithasol Cymru - https://gofalcymdeithasol.cymru/

Blynyddoedd Cynnar Cymru - https://www.earlyyears.wales/cy

*Defnyddiwch yr archwiliad hwn i edrych ar gynaliadwyedd ac ymarferoldeb rhedeg eich busnes gofal plant eich hun. Cofiwch mai canllaw yn unig yw hwn ac mai'ch cyfrifoldeb chi yw bod yn ymwybodol o unrhyw newidiadau a gyflwynir gan CThEM, y Rheoleiddiwr Pensiynau ac Arolygiaeth Gofal Cymru wrth redeg eich busnes eich hun.*

| **Ymchwil** | |
|---|---|
| Ydych chi wedi edrych ar Asesiad Digonolrwydd Plant Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr? | |
| Ydych chi wedi cynnal unrhyw ymarferion cwmpasu/ ymchwil farchnad gyda'ch cynulleidfa darged? | |
| Ydych chi wedi mynd at Dewis Cymry i fwrw golwg ar y darparwyr presennol? | |
| Ydych chi wedi cwmpasu'r ardal i gael syniad o ffioedd darparwyr gofal plant presennol? | |
| Ydych chi wedi cysylltu â Thîm Gofal Plant Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr am gyngor a chymorth? | |
| Beth fydd eich pwynt gwerthu unigryw (USP)? Beth sy'n gwneud i'ch busnes chi sefyll allan o gymharu â busnesau gofal plant eraill yn eich ardal? | |
| Ydych chi wedi cynnal Dadansoddiad Cryfderau, Gwendidau Cyfleoedd, Bygythiadau eich syniad busnes? | |
| **Strwythur Cyfreithiol** | |
| Ydych chi wedi penderfynu ar strwythur cyfreithiol eich busnes? | |
| Ydych chi wedi cysylltu â Busnes Cymru am gyngor wrth sefydlu'ch strwythur cyfreithiol? | |
| ***Unig Fasnachwr*** | |
| Ydych chi wedi cofrestru gyda CThEM? | |
| ***Partneriaeth*** | |
| Ydych chi wedi datblygu contract i gytuno arno a'i lofnodi gan bawb? | |
| Ydych chi wedi cofrestru gyda CThEM? | |
| ***Partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig*** | |
| Ydych chi wedi cofrestru gyda Thŷ'r Cwmnïau? | |

| | |
|---|---|
| Ydych chi wedi cofrestru gyda CThEM? | |
| ***Cwmni Cyfyngedig*** | |
| Ydych chi wedi llenwi'r Memorandwm a'r Erthyglau Cymdeithasu gyda Thŷ'r Cwmnïau? | |
| Oes gennych chi'r cyfleuster i gynnal cyfrifon archwiliedig i'w ffeilio gyda Thŷ'r Cwmnïau bob blwyddyn? | |
| Ydych chi wedi sefydlu Bwrdd Cyfarwyddwyr? | |
| Ydych chi wedi cofrestru gyda CThEM? | |
| ***Sefydliad Corfforedig Elusennol (CIO)*** | |
| Ydych chi wedi sefydlu pwyllgor? | |
| Ydych chi wedi ysgrifennu eich Cyfansoddiad? | |
| Ydych chi wedi gwneud darpariaethau i baratoi cyfrifon blynyddol? | |
| Ydych chi wedi cofrestru gyda CThEM? | |
| Ydych chi wedi cysylltu â BAVO am gyngor? | |
| Ydych chi wedi edrych i weld pa grantiau allai fod ar gael i chi fel elusen? | |
| **Safleoedd** | |
| Ydych chi wedi dod o hyd i safle addas? | |
| Ydych chi wedi bwrw golwg ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol i weld a fyddai'r safle yn bodloni'r rheoliadau? Er enghraifft, oes digon o doiledau? | |
| Os ydych chi'n bwriadu bod yn warchodwr plant gyda dros 10 o blant, ydych chi wedi gwneud cais i'r Adran Gynllunio? | |
| Ydych chi wedi cysylltu â'r Tîm Gofal Plant am gyngor neu i drefnu ymweliad safle? | |
| Ydych chi'n gwybod yr ardrethi rhent? | |
| Ydych chi wedi llunio cytundeb/ contract rhent? | |
| Oes tystysgrifau ar gael ar gyfer y nwy a'r trydan? | |
| Ydych chi wedi holi i weld a oes angen i chi osod a chlirio pob dim bob dydd, neu a fyddwch chi'n gallu gadael cyfarpar allan dros nos? | |

| | |
|---|---|
| Oes man awyr agored y gellir ei ddefnyddio? | |
| Oes digon o gyfleusterau storio? | |
| A fydd gan rieni fynediad hawdd at yr adeilad? | |
| Oes unrhyw ofodau parcio ar gael i rieni neu staff?<br>Os ydych chi'n ystyried agor gofal dydd llawn, oes darpariaeth i staff gymryd egwyliau ac ati? | |
| Oes unrhyw ddarpariaethau ar gyfer cegin i baratoi byrbrydau/ prydau ac ati. | |
| Oes gennych chi gyllideb ar gyfer unrhyw waith adeiladu/ addurno? | |
| Ydych chi'n gallu rheoli awyru/ tymheredd yr adeilad? | |
| **Cyfarpar** | |
| Oes gennych chi fynediad at gyfarpar dan do ac awyr agored glân o ansawdd? | |
| Ydy'r holl gyfarpar yn cario nod Barcut Prydeinig a marc Ystad y Goron? | |
| Oes angen i chi brynu unrhyw ddodrefn i oedolion fel cadeiriau, desg, cyfarpar swyddfa, ffonau? | |
| Oes angen i chi brynu unrhyw fygis/ *strollers*/ seddi ceir/ seddi uchel/ matiau cysgu? | |
| Oes angen i chi brynu unrhyw gyfarpar diogelwch fel blancedi tân/ diffoddwyr tân, gatiau diogelwch/ cloeon diogelwch ac ati. | |
| Ydych chi wedi siarad gyda'r Tîm Gofal Plant am grantiau posibl a allai fod ar gael i chi fel Grant Dechrau? | |
| **Iechyd a Diogelwch** | |
| Ydych chi wedi cysylltu â'r Swyddog Diogelwch Tân ac wedi cael tystysgrif? | |
| Ydych chi wedi creu asesiadau risg ar gyfer eich lleoliad? | |
| Ydych chi wedi cofrestru gydag Iechyd yr Amgylchedd? | |
| Ydych chi wedi ysgrifennu Polisi Iechyd a Diogelwch a fydd yn adlewyrchu'ch gweithdrefnau yn y lleoliad? | |
| Oes gennych chi bolisi Damweiniau gyda'r ddogfennaeth angenrheidiol? | |

| | |
|---|---|
| Os byddwch chi'n defnyddio cerbyd ar gyfer y busnes, oes gennych chi yswiriant busnes dilys? | |
| Os ydych chi'n defnyddio cerbyd ar gyfer y busnes, oes gennych chi dystysgrif MOT ddilys? | |
| Os ydych chi'n defnyddio cerbyd ar gyfer y busnes, ydy'r seddi car cywir wedi'u gosod? Dylai pob sedd car fod wedi'u cymeradwyo gan yr UE o ran uchder neu bwysau. | |
| Ydych chi wedi edrych ar ganllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru ar 'Atal Heintio a Rheoli Lleoliadau Gofal Plant, Meithrinfeydd, Gwarchodwyr Plant a Chylchoedd Chwarae'? | |
| | |
| **Yswiriant** | |
| Oes gennych chi yswiriant ar waith ar gyfer eich busnes? | |
| **Ardrethi Busnes** | |
| Ydych chi wedi holi Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i weld a ydych chi'n gymwys am ardrethi busnes? | |
| Ydych chi wedi ystyried ardrethi busnes yn eich cyllideb fisol/flynyddol? | |
| **Isafswm Cyflog Cenedlaethol** | |
| Ydych chi wedi gofyn am gymorth gan www.gov.uk i wirio lefelau presennol yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol? | |
| Ydych chi wedi ystyried yr ardrethi hyn yn eich dyraniad cyllideb? | |
| Ydych chi wedi ystyried y gallai cyflogau misol eich staff newid yn dibynnu ar bwy rydych chi'n ei gyflogi, codiadau yn yr isafswm cyflog cenedlaethol ac ati. | |
| **Pensiynau** | |
| Ydych chi wedi bod mewn cysylltiad â'r Gwasanaeth Cynghori Pensiynau neu'r Rheoleiddiwr Pensiynau? | |
| Ydych chi wedi cyllidebu ar gyfer cyfraddau presennol cyfraniadau cyflogwyr at bensiynau? | |
| **Cyflogaeth Staff** | |
| Ydych chi wedi cysylltu â Busnes Cymru neu Busnes mewn Ffocws am gyngor ar Adnoddau Dynol/ gweithdai? | |

| | |
|---|---|
| Ydych chi wedi edrych ar Gofal Cymdeithasol Cymru am adnoddau ar recriwtio staff ac ati? | |
| Os oes angen i chi gyflogi staff, ydych chi wedi ystyried lle byddwch chi'n hysbysebu? A fydd angen cyllidebu ar gyfer hyn? | |
| Ydych chi wedi siarad gyda Twf Swyddi Cymru? | |
| Ydych chi wedi edrych ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol i sicrhau bod eich lefelau staffio yn cydymffurfio? | |
| Ydy'r Person Cyfrifol wedi cael o leiaf 2 flynedd o brofiad mewn lleoliad gofal plant? | |
| **Cyflogau Staff** | |
| Sut byddwch yn talu cyflogau staff? | |
| Ydych chi wedi sefydlu Cynllun Talu wrth Ennill gyda CThEM? | |
| Ydych chi'n gallu cyflwyno slip cyflog sy'n dangos cyfraniadau Yswiriant Gwladol a Phensiwn? Oes gennych chi System Gyflogres ar waith? | |
| Oes gennych chi aelod o staff dynodedig ar gyfer gweinyddu'r gyflogres? | |
| Os ydych chi am ddefnyddio System Gyflogres neu gyfrifydd, ydych chi wedi cyllidebu ar gyfer hyn? | |
| **Hyfywedd Ariannol** | |
| Oes gennych chi gynllun wrth gefn sy'n cynnwys costau cynnal tri mis? | |
| Beth fyddai'r isafswm o blant fyddech chi ei angen i fod yn hyfyw? | |
| Fyddech chi'n gynaliadwy pe bai rhent/ ardrethi/ cyflogau ac ati yn codi? | |
| Ydych chi wedi ystyried tâl salwch a thâl mamolaeth/ tadolaeth? | |
| Oes gennych chi warged a fyddai'n eich galluogi i dalu am atgyweiriadau a chynnal a chadw adeiladau? | |
| Ydych chi wedi cysylltu â'r Tîm Gofal Plant ynghylch hyfywedd ariannol? | |

| | |
|---|---|
| Ydych chi'n gallu cystadlu gyda darpariaethau eraill yn eich ardal? Ydych chi'n cynnig rhywbeth gwahanol i'ch cystadleuwyr? | |
| **Grantiau** | |
| Ydych chi wedi siarad gyda'ch tîm Gofal Plant am grantiau a allai fod ar gael i chi? | |
| Os ydych chi'n elusen, ydych chi wedi cysylltu â BAVO i weld a oes unrhyw grantiau Elusennol ar gael i chi? | |
| Ydych chi wedi cysylltu â Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i drafod y Grant Kick Start? | |
| Ydych chi wedi cysylltu â Busnes Cymru a Busnes mewn Ffocws i drafod Grantiau Gofal Plant? | |
| Ydych chi wedi siarad gyda'r Tîm Gofal Plant i drafod y Cynnig Gofal Plant a grantiau a allai fod ar gael ar ôl cofrestru? | |
| **Cynhwysiant a Chydraddoldeb** | |
| Ydych chi wedi darllen Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg 2018? | |
| Fyddwch chi'n darparu gwasanaeth sy'n hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant i staff, rhieni a phlant? | |
| **Cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru** | |
| Oes gennych chi Berson Cofrestredig a Pherson Cyfrifol? | |
| Ydych chi wedi gwirio'ch holl gymwysterau staff? | |
| Oes gennych chi a'ch staff wiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd boddhaol? | |
| Oes gennych chi'r Polisïau a'r Gweithdrefnau gofynnol ar waith? | |
| Oes gennych chi a'r person Cofrestredig y dystysgrif meddygon cywir i gefnogi'ch cais? | |
| Ydych chi wedi gwirio bod holl ffeiliau eich staff wedi'u diweddaru, gan gynnwys copi o'ch CV, tystysgrifau, archwiliadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, cymwysterau, geirdaon a chontract? | |
| Ydych chi wedi cynnwys yr holl ddogfennau cywir ar gyfer nwy, trydan, diogelwch tân ac yswiriant (neu o leiaf wedi crybwyll fod gennych chi yswiriant yn ei le ar gyfer dechrau gweithio ar ôl cofrestru). | |

| | |
|---|---|
| **Sefydliadau Ymbarél** | |
| Ydych chi wedi cysylltu â Pacey/ NDNA/ WPPA/ Mudiad Meithrin neu Clybiau Plant Cymru i drafod dod yn aelod? Ydych chi wedi ystyried y gost hon yn eich cyllideb fisol/ flynyddol? Meddyliwch a oes ganddynt unrhyw gynigion ar yswiriant ac ati. | |
| **Hyfforddiant/ Cymwysterau** | |
| Ydych chi a'ch holl staff wedi cael y cymwysterau cywir i gael eich cofrestru? | |
| Ydych chi wedi bwrw golwg ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol i sicrhau bod eich cymwysterau chi a'ch staff yn gywir? | |
| Ydych chi wedi cysylltu â'r Tîm Gofal Plant i ofyn am gyngor ar eu hyfforddiant? | |
| Oes angen i chi archebu lle ar unrhyw hyfforddiant cyn anfon eich arolwg AGC? | |
| Ydych chi wedi ystyried cost hyfforddiant/ cymwysterau yn eich cyllideb? Bydd hon yn gyllideb barhaus gan y bydd angen diweddaru cymwysterau yn rheolaidd. | |
| **Y Gymraeg** | |
| Ydych chi wedi ystyried bod yn lleoliad Cymraeg? | |
| Ydych chi wedi ystyried sut byddwch chi'n gweithio tuag at Cymraeg 2050, os ydych chi'n ganolfan Gymraeg neu Saesneg? | |